

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Ffônau Symudol



Rationale

Y mae ffonau symudol bellach yn nodwedd o gymdeithas fodern ac mae rhan helaeth o ddisgyblion yr ysgol yn berchen un. Mae technoleg soffistigedig cynyddol y ffonau symudol hyn yn cyflwyno nifer o gymlethdodau i ysgolion:

- Gwerth ariannol uchel nifer helaeth o ffônau.
- Camerau mewn ffonau sy'n gallu arwain i ddadleuon amddiffyn plant a gwarchod data.
- Y gallu i ddefnyddio ffôn i anfon neges destun pan mae'r offer mewn modd tawel.

Nid yw'n ymarferol i wahardd ffonau symudol yn gyfangwbl, nac yn bosibl i gasglu ffonau oddi ar ddisgyblion yn y bore a'u dychwelyd ar ddiwedd y dydd. Y mae'r polisi hwn yn caniatáu i ddisgyblion gael ffôn yn yr ysgol o dan y canllawiau a amlinellir isod.

1. Ni ddylai disgyblion gludo ffôn symudol i'r ysgol heb fod achos digonol i wneud hynny, e.e. diogelwch personol / trefniadau cludiant arbennig.
2. Ni chaniateir defnyddio ffôn symudol i unrhyw bwrpas (gan gynnwys ffonio, anfon neges destun, defnyddio'r we, tynnu lluniau neu lluniau fideo) rhwng yr oriau ysgol o 8.45am a 3.25pm heb ganiatad aelod penodol o staff ac mewn amgylchiadau penodol megis argyfwng neu gymorth ymarferol.
3. Dylai'r ffôn gael ei throi i ffwrdd (nid ar fodd tawel) a'i chadw o'r golwg.
4. Petai'r disgybl yn torri'r rheolau hyn bydd yr offer yn cael ei gymeryd gan aelod o staff a'i roi i bennaeth blwyddyn. Fe ddychwelir yr offer i'r disgybl ar ddiwedd y diwrnod.
5. Pe byddai disgybl yn troseddu yn aml bydd y pennaeth blwyddyn yn cysylltu â'r cartref ac yn gofyn i riant / warcheidwad alw yn yr ysgol i drafod y mater ac i gael dychwelyd yr offer.
6. Ni chaniateir ffonau symudol mewn ystafell arholiad ar unrhyw achlysur.

Argyfyngau

Petai disgybl eisiau cysylltu gyda rhiant neu warcheidwad fe ganiateir defnyddio ffôn y swyddfa yn rhad ac am ddim neu drwy gyfrwng y ffôn gyhoeddus yn y cyntedd.

Petai rhiant neu warcheidwad angen cysylltu gyda disgybl ar frys gellir gwneud hynny drwy gyfrwng y swyddfa. Bydd staff y swyddfa yn anfon y neges ymlaen i'r disgybl.

Cyfrifoldebau am Ffonau Symudol

Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am achosion o ddwyn, colli neu ddifrod i ffonau symudol tra ar y safle ac yn ystod oriau arferol yr ysgol. Cyfrifoldeb rhiant / gwarcheidwad yw gofalu fod yswiriant ar yr offer.

Lluniwyd y polisi hwn mewn cytundeb ac ymgynghoriad llawn gyda'r staff dysgu a'u hundebau gan warchod cydbwysedd bywyd a gwaith athrawon. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn Rhestr Wirio Effaith Llwyth gwaith.

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y Corff Llywodraethu:

(Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Dyddiad cymeradwyo: **21/01/2016** (gan y Corff Llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu: **HAF 2020**